

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Dirybudd) Ysbyty Aderyn

Dyddiad yr Arolygiad: 26 – 27 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	4
3.	Crynodeb	5
4.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	13
5.	Y camau nesaf	14
6.	Methodoleg	15
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o Ysbyty Aderyn ar 26 a 27 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut y mae Ysbyty Aderyn yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluoedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da.

<http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Ysbyty Aderyn, mewn perthynas â maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu, ar noswaith 26 Hydref a thrwy'r dydd ar 27 Hydref 2016.

Cofrestrwyd yr ysbyty gyntaf yn 2001 er mwyn darparu gwasanaeth niwed i'r ymennydd; fodd bynnag, ers 20 Hydref 2006, mae'r cofrestriad wedi'i newid i ddarparu 19 o welyau i ddynion dros 18 oed sydd ag angen adsefydliad seiciatrig. Mae amodau cofrestru ychwanegol yn nodi bod yn rhaid i gleifion fod ag anhwylder meddyliol a bod yn agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Ysbyty Aderyn hefyd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth dydd i uchafswm o ddau glaf fel rhan o'u rhaglen adsefydlu a'u paratoad i adael gofal. Mae'r ysbyty yn eiddo i Partnerships in Care ar hyn o bryd ac yn gweithredu fel ward allanol ar gyfer Ysbyty Llanarth Court ger y Fenni.

Cynhaliwyd yr ymweliad hefyd i sefydlu beth ddigwyddodd cyn ac yn ystod digwyddiad adroddadwy ar 28 Ionawr 2016 ac i adolygu'r trefniadau llywodraethu sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y gwaith ailstrwythuro sydd ar ddigwydd o fewn Partnerships in Care ac sy'n cael eu hystyried fel rhan o gais cofrestru newydd.

Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl a thri aelod o staff AGIC.

3. Crynodeb

Roedd ein harolygiad o Ysbyty Aderyn ym mis Hydref 2016 yn ymweliad cadarnhaol a gwelsom nifer o feysydd o arfer nodedig ar waith. Canfuom fod lle i wella ond roeddem hefyd yn falch i adrodd canfyddiadau cadarnhaol.

Roedd staff a chleifion yn groesawgar drwy gydol ein hymweliad, gan ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'r broses arolygu, ac roedd amgylchedd yr ysbyty'n lân ac yn daclus.

Roedd adborth cleifion o ran y bwyd sy'n cael ei weini yn yr ysbyty'n parhau i fod yn gadarnhaol; mae dognau o faint da ac mae staff y gegin yn gweithio'n dda gyda chleifion a staff i sicrhau bod unrhyw geisiadau o ran bwyd yn cael eu diwallu.

Gwnaethom nodi nifer o feysydd drwy gydol yr ysbyty oedd angen sylw, yn benodol o ran cynnal a chadw a diogelwch. Roedd y goleuadau allanol wrth gyrraedd Ysbyty Aderyn ac yn uniongyrchol y tu allan i'r adeilad yn annigonol ac nid oedd y lifft wedi bod yn gweithio ers ychydig o fisoedd. Mae hefyd yn ofynnol bod reiliau gwely'n cael eu darparu lle y bo'n briodol am resymau diogelwch a bod problem ynglŷn â chyfyngiadau ar ffenestri'n derbyn sylw.

Roedd y rhestr wirio ar gyfer yr ystafell glinig ac er mwyn rheoli meddyginiaeth yn enghraifft o arfer a rheolaeth dda.

Roedd y cyfarfodydd adolygu gofal unigol wedi'u canoli ar y cleifion, ac roedd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd cysylltiadau datblygedig iawn gyda meddyg teulu lleol a nyrs gofal iechyd corfforol. Fodd bynnag, rhaid i bob cofnod arsylwadol gael ei gwblhau'n gynhwysfawr, yn arbennig i ddangos bod gwiriadau sicrwydd ansawdd wedi cael eu cynnal gan y nyrs gofrestredig â gofal, a dylent gynnwys gwybodaeth fwy manwl sy'n adlewyrchu lefelau cyfredol o ran arsylwi cleifion.

Gwnaethom ofyn bod adolygiad o gleifion sy'n cael mynediad at systemau galw pan fyddant yn y gwely yn cael ei gynnal a bod cynllun gweithredu i ddatrys y broblem hon yn cael ei gwblhau a'i rannu gydag AGIC.

Gwnaethom ofyn bod adolygiad annibynnol pellach o'r digwyddiad adroddadwy a ddigwyddodd ar 28 Ionawr 2016 yn cael ei gwblhau a'i anfon at AGIC nid yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2016.

Gwnaethom adolygu cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl a nodi eu bod yn gymwys a bod y ddogfennaeth gyfreithiol yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Amgylchedd y ward

Mae dau lawr i Ysbyty Aderyn, ac mae'r llawr cyntaf yn cynnwys mwyafrif yr ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd ymolchi, a'r ystafell gyfrifiaduron. Roedd y cleifion yn gallu dringo i'r llawr cyntaf ar y grisiau neu yn y lifft, a reolwyd gydag allwedd y staff. Nodwyd nad oedd y lifft wedi bod yn gweithio ers mis Awst 2016 ac roedd staff cynnal a chadw'n ceisio datrys y broblem.

Roedd lolfa/ystafell sesiwn gyda chadeiriau esmwyth wedi'i lleoli yn gyfochrog â'r cyntedd. Mae'r ystafell wedi cael ei hailaddurno a'i hadnewyddu yn ddiweddar ac roedd yn ddymunol gyda golygfeydd o diroedd yr ysbyty.

Gyferbyn â'r lolfa/ystafell sesiwn roedd yr Ystafell Las a heulfan.

Roedd yr Ystafell Las yn fawr ac roedd hefyd wedi cael ei hailaddurno a'i hadnewyddu'n ddiweddar – roedd yn olau ac yn groesawgar gyda lluniau newydd ar y waliau. Roedd digon o seddi ar gyfer y grŵp o gleifion ac roedd teledu a DVDs ar gael.

Roedd yr ystafell wydr yn edrych dros diroedd yr ysbyty ac yn cynnig gweithgareddau adloniadol megis bwrdd pŵl, cyfarpar ymarfer corff a bwrdd dartiau. Nodwyd bod angen ailbaentio ffenest yr ystafell wydr.

Roedd golchdy ar gael i'r cleifion gael golchi eu dillad eu hunain. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom arsylwi ar ddillad wedi'u golchi wedi'u gwasgaru ar lawr yr ystafell golchi dillad ac wedi'u cymysgu â dillad brwnt. Daethpwyd â hyn at sylw'r staff ac esboniwyd bod perygl difrifol o groes-heintio.

Roedd cegin y practis yn darparu cyfleusterau ac offer i gleifion gael paratoi a choginio eu bwyd eu hunain ac roedd yn cael ei defnyddio'n aml.

Mae'r clinig/ystafell driniaeth wedi cael ei hadnewyddu ac roedd yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda.

Roedd glendid yr amgylchedd yn dda yn ystod ein hymweliad, ond roedd ymddangosiad cyffredinol swyddfa'r nyrsys yn edrych yn dreuliedig iawn.

Wrth ochr Ysbyty Aderyn, ceir bwthyn sy'n gyfleuster 'cam-i-lawr' â dau wely ac sy'n cynnig cyfle i gleifion fyw'n rhannol annibynnol. Oherwydd cyfyngiadau amser, nid ymwelwyd â'r bwthyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen rhaglen cynnal a chadw i sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal safonau boddhaol. Mae angen rhoi sylw arbennig i olau allanol y safle, gwaith cynnal a chadw ar y lifft, atgyweiriadau i ffenestri allanol, ac ailaddurno rhai ystafelloedd.

Mae proses i fonitro'r ystafell golchi dillad sy'n sicrhau bod cleifion a staff wedi'u haddysgu i roi dillad yn y basgedi a ddarperir yn ofynnol, a dylid dilyn hyn.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun lle y gallai gadw ei eiddo ei hun. Roedd cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, a dywedwyd wrthynt fod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu, gyda'r staff yn cnocio ar ddrysau'r ystafelloedd cyn dod i mewn.

Roedd cyfleusterau yn yr ysbyty i alluogi cleifion i gwrdd â theulu a ffrindiau yn breifat, ac roedd ffôn talu at ddefnydd y cleifion. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt nyrs benodedig, a'u bod yn gallu siarad â hi'n breifat.

Dywedodd staff wrthym fod gan yr ysbyty ddigon o le i alluogi cleifion i gael digon o breifatrwydd ac urddas, ac yn ystod ein hymweliad gwelsom ryngweithio da rhwng staff a chleifion, a staff yn trin cleifion gydag urddas a pharch.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Cynigiai Ysbyty Aderyn amrywiaeth eang o weithgareddau a therapïau i'r grŵp o gleifion. Yn ystod ein hymweliad, aeth grŵp o gleifion i gerdded am gwpl o oriau.

Dywedodd mwyafrif y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod digon o weithgareddau'n digwydd yn yr ysbyty, a dywedodd pob un fod yr ysbyty wedi gofyn iddynt beth oedd eu diddordebau.

Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw fod digon o weithgareddau ar gael ar gyfer cleifion ac roedd dyddiau'n eithaf llawn. Dywedon nhw hefyd fod mwy o gleifion yn cyfrannu at yr hyn hoffent ei wneud.

Roedd gan gleifion fynediad at feddyg teulu a fyddai'n ymweld ag Ysbyty Aderyn ddwywaith yr wythnos; roedd ciropodydd yn ymweld yn rheolaidd, ac roedd nyrs iechyd corfforol yn rhoi cymorth i'r staff ynghylch gofal iechyd

corfforol y cleifion. Mae caplan hefyd yn ymweld ag Ysbyty Aderyn yn rheolaidd.

Roedd cleifion a staff yn gadarnhaol iawn am wasanaethau eiriolaeth a ddarperir i gefnogi cleifion pan oedd arnynt eu hangen. Arddangoswyd posteri ac arnynt fanylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, ac roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n gwybod sut i gysylltu ag eiriolwr. Cadarnhaodd y staff fod eiriolwr iechyd meddwl annibynnol yn ymweld yn wythnosol neu'n fwy os oes angen.

Bwyd a maetheg

Dywedodd pob aelod o staff y buom yn siarad ag ef fod y bwyd sy'n cael ei weini yn Ysbyty Aderyn yn fwyd o ansawdd da ac yn cynnig amrywiaeth o ran maeth. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion y siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau'r bwyd a'i fod wedi'i goginio'n dda. Roedd gan gleifion fynediad at ddiodydd a byrbrydau y tu hwnt i amserau bwyd, ac roeddent yn gallu prynu a storio eu bwyd eu hunain. Dyfeisiwyd bwydlenni ar gyfer cleifion â gofynion dietegol penodol, er mwyn diwallu eu hanghenion.

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol ynghylch maint y dognau bwyd, gan ddweud bod digon iddynt ac nad oeddent byth yn llwgu. Cadarnhaodd y staff fod digon o fwyd i'r cleifion.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu pwysu'n rheolaidd. Nid oedd dietegydd ar waith ar adeg ein hymweliad, ac roedd staff nyrsio a therapi galwedigaethol yn gweithio gyda'r staff arlwygo ar anghenion byw'n iach. Ystyriai'r cogydd ddangos gwerth maethol y prydau a ddarperir.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Cafodd y rheolwr atgyfeiriadau a gweinyddiaeth ei gyfweld a rhoddwyd sicrwydd bod cyngor da o dîm cyfreithiol y sefydliad ar gael yn rhwydd pe bai ei angen.

Ar adeg yr ymweliad, cadwyd pob dogfen Deddf Iechyd Meddwl, unwaith y'i derbyniwyd a'i harchwiliwyd, yn swyddfa weinyddol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn Ysbyty Llanarth Court, lle y mae'n cael ei sganio i gofnod electronig y claf.

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion a oedd yn cael eu cadw a'u gofalu amdanynt yn Ysbyty Aderyn a nodwyd y problemau/arferion da canlynol:

- Mae Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cymru (2016) yn rhoi canllawiau statudol a chanllawiau buddiol ond nid statudol. Rhaid i'r rhai hynny y mae'r cod yn cyfeirio atynt ei ystyried a derbyn hyfforddiant amdano i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'i ofynion. Mae'n ganllaw y dylid rhoi pwyslais mawr arno ac y dylai unrhyw ysbyty ei ystyried yn ofalus; ni ddylid torri'r cod oni bai bod gan ysbyty resymau cymhellol am wneud hynny.
- Dylai'r cod fod ar gael i gleifion, teuluoedd, gofalmwyr ac eiriolwyr ac eraill sy'n eu cefnogi. Nid oedd unrhyw gopiâu o'r ddogfen yn Saesneg neu Gymraeg yn yr uned. Gofynnwyd i Ysbyty Aderyn ddatrys y broblem hon fel mater o frys.
- Dylai achosion o ganiatáu absenoldeb a'r amodau sy'n gysylltiedig ag ef gael eu cofnodi'n eglur yn nodiadau achos y claf a nodwyd fod ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 mewn fformat electronig. Awgrymwyd y byddai'n arfer da i barhau i ddefnyddio ffurflen y gallai'r Clinigydd Cyfrifol awdurdodi absenoldeb arni, gan nodi unrhyw amodau. Nid yw Cod Ymarfer Cymru'n nodi y dylai ffurflen fel honno fod ar bapur, yn electronig neu mewn unrhyw fformat arall. Fodd bynnag, dywed y cod, "Dylid rhoi copiâu i'r claf, unrhyw berthnasau neu ffrindiau priodol ac unrhyw weithwyr proffesiynol yn y gymuned y mae angen cael eu hysbysu" – 27.18 Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (2016).
- Yn dibynnu ar alluedd y claf, byddai hefyd yn arfer da i'r claf gael arwyddo'r ffurflen i dystio ei fod "wedi cael ei annog i roi safbwyntiau ei hunan ynghylch ei absenoldeb" – 27.20 Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (2016). Dylid cofnodi canlyniad cyfnod o absenoldeb yn nodiadau'r claf i lywio

penderfyniadau yn y dyfodol ond nid oedd llawer o dystiolaeth o hyn.

- Mae copïau o ffurflenni CO₂ a CO₃ wedi'u lamineiddio'n cael eu cadw gyda chardiau meddygol; maent yn cael eu disodli'n briodol pan maent yn cael eu hadolygu gan y Clinigydd Cyfrifol neu Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn. Fodd bynnag, roedd dau o'r ffurflenni CO₂ a gwblhawyd gan y Clinigydd Cyfrifol cystal â bod yn annarllenadwy.
- “Dylid nodi'r trefniadau am awdurdodi pobl i gynnal gweithrediadau dirprwyol mewn Cynllun Dirprwyo” – 37.8 Cod Ymarfer Cymru (2016). Roedd y sefydliad yn gallu tystio bod cynllun fel hynny wedi cael ei gymeradwyo trwy benderfyniad gan y corff ei hun.
- Mae gan Weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl raglen dreigl ar waith i archwilio dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Mae perthnasau da wedi cael eu sefydlu gyda gweinyddwyr Ddeddf Iechyd Meddwl eraill yng Nghymru yn ogystal â chlercod llysoedd. Dylai gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl gael eu hannog i fynychu cyfarfodydd Fforwm Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru i sefydlu a chynnal cyswllt a chael mynediad at gymorth gan gymheiriaid. Roedd hi'n ddymunol nodi bod Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cyflawni tystysgrif mewn Cyfraith Iechyd Meddwl ar ôl cwblhau cwrs ar y cyd â Phrifysgol Northumbria.
- Ar hyn o bryd, mae pob gwrandawriad Rheolwyr Ysbyty'n cael eu clericio. Mae hwn yn wastraff dadleuol o amser Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl pan allai Adolygiadau Rheolwyr Ysbyty gael eu cynnal gan y Cadeirydd ar y diwrnod, yn dilyn enghraifft o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Wrth fabwysiadu'r ffordd hon o weithio, byddai angen i gymorth ffôn drwy Weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl fod ar gael.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i gopïau o God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (2016) fod ar gael i gleifion, teuluoedd, gofalwyr ac eiriolwyr, ac eraill sy'n eu cefnogi, fel mater o frys.

Defnyddio'r Mesur Iechyd Meddwl

Archwilio dogfennau gofal

Nodwyd ar sawl achlysur nad oedd cofnodion arsylwadol yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gan y nyrs â gofal.

Nid oedd dogfennau ar gyfer lefelau arsylwi yn adlewyrchu'r arsylwadau 15 munud cyfredol ar gyfer un claf.

Roedd gan un claf glwyf yn dilyn anaf ac roedd diffyg gwybodaeth yn y disgrifiad o gyflwr y clwyf a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob cofnod arsylwadol gael ei gwblhau'n gynhwysfawr i ddangos bod gwiriad sicrwydd ansawdd o gofnodion wedi cael ei gwblhau gan y nyrs gofrestredig sydd â gofal.

Dylid darparu mwy o wybodaeth fanwl yn y cynllun gofal i ddangos gofal clwyfau effeithiol a chyflwr y clwyf.

Rhaid i ddogfennau cleifion unigol adlewyrchu'r lefel gyfredol o ran arsylwi ar gleifion.

Diogelwch

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn Ysbyty Aderyn, ac ni wnaeth staff fynegi unrhyw bryderon o ran diogelwch. Gwelsom y tîm berygl diogelwch ar gyfer un o'r cleifion lle, oherwydd iechyd cyfredol y claf, y byddai wedi bod yn briodol i osod rheiliau gwely.

Mewn rhai ystafelloedd cleifion, roedd gwelyau a chyfleusterau galw nyrsys ar ochrau gwahanol o'r ystafell, a chynghorodd y tîm y dylai'r rhain fod yn agos at ei gilydd.

Roedd y clinig/ystafell driniaeth wedi'i trefnu'n dda iawn gyda'r bag argyfwng wedi'i gyflenwi'n dda a phob cofnod wedi'i gwblhau'n briodol.

Nid oedd rhai cyfyngiadau ffenest ar rai o ffenestri'r llawr cyntaf mewn ystafelloedd cleifion yn cyfyngu'n ddigonol.

Arsylwyd ar nifer o beryglon pwyntiau clymu, yn enwedig caeadau drws. Mae angen rhoi sylw i hyn.

Archwiliwyd dogfennau o ran y digwyddiad adroddadwy a ddigwyddodd ar 28 Ionawr 2016. Nodwyd anghysondebau a gofynnodd AGIC fod adolygiad pellach yn cael ei gynnal gan unigolyn annibynnol, i eglurhau'r digwyddiadau cyn ac yn ystod y digwyddiad ar 28 Ionawr 2016.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid darparu rheiliau gwely lle y bo'n briodol am resymau diogelwch.

Dylid cynnal adolygiad o'r ffordd mae cleifion yn cael mynediad at systemau galw pan maent yn y gwely a llunio cynllun gweithredu i ddatrys y broblem hon.

Rhaid datrys y broblem o ran cyfyngiadau ar ffenestri.

Rhaid cwblhau adolygiad annibynnol o'r digwyddiad adroddadwy a'i anfon at AGIC nid yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2016.

Rhaid i AGIC dderbyn copi o asesiad risg pwyntiau clymu diweddaedig ar gyfer Ysbyty Aderyn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod yr ymweliad, daeth yn amlwg bod angen rhoi trefniadau parhad busnes ar waith ar gyfer y gwaith ailstrwythuro ac ailgofrestru Partnerships in Care Limited sydd ar ddigwydd, yn arbennig yr eglurhad ynghylch penodi Clinigydd Cyfrifol ar gyfer Ysbyty Aderyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai Ysbyty Aderyn ddarparu eglurhad o'r trefniadau parhad busnes sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y gwaith ailstrwythuro o fewn Partnerships in Care Limited sydd ar ddigwydd.

Y tîm amlddisgyblaeth

Gwnaeth yr holl staff y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaeth o weithio. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn digwydd yn rheolaidd a bod pob disgyblaeth yn cael ei chynrychioli, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon a nyrsys. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau gan staff o bob disgyblaeth, a lle'r oedd y staff yn teimlo bod pawb yn parchu ei gilydd.

Hyfforddiant ac adnoddau staff

Rhoddodd staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad wybodaeth anghyson o ran lefelau arsylwi a glynu ar bolisiâu lleol Partnerships in Care.

Roedd y staff yn ganmoliaethus am y system hyfforddi ar-lein sydd wedi cael ei chyflwyno.

Gwnaeth ystadegau hyfforddiant gorfodol Ysbyty Aderyn dystio bod staff wedi diweddarau eu hyfforddiant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant mewn arsylwi ar gleifion gyda phwyslais penodol ar sicrhau bod proses gadarn ac eglur o ran pa lefelau sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfer pob claf yn seiliedig ar asesiad risg.

5. Y camau nesaf

Gwnaeth AGIC gyhoeddi llythyr sicrwydd ar unwaith i Ysbyty Aderyn mewn perthynas â'r problemau cynnal a chadw a nodwyd yn ystod yr ymweliad.

Bydd AGIC yn cyhoeddi llythyr yn gofyn am eglurhad o ran trefniadau parhad busnes yn dilyn ailstrwythuriad y cwmni.

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Aderyn yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesurrol, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n

gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffuriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Ar gyfer gwasanaethau annibynnol, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu o achosion difrifol o dorri rheoliadau trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Mae'r canfyddiadau hyn (lle y maent yn berthnasol) wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

Atodiad A

Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella

Darparwr: Partnerships in Care

Ysbyty: Ysbyty Aderyn

Dyddiad yr arolygiad: 26 – 27 Hydref 2016

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen rhaglen cynnal a chadw i sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal safonau boddhaol. Mae angen rhoi sylw arbennig i oleuadau allanol y safle, gwaith cynnal a chadw ar y lift, atgyweiriadau i ffenestri allanol, ac ailaddurno rhai ystafelloedd.	26 (2) (a) (b)	Rhaglen cynnal a chadw ar waith. Gweler yr hyn sydd ynghlwm.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty Swyddog Cynnal a Chadw	Cwblhawyd
		Gwaith ar y goleuadau allanol wedi'i gwblhau ar 28 Tachwedd 2016	Contractwr allanol	Cwblhawyd
		Gwasanaeth lifft wedi cael ei adolygu a'i gwblhau ar 26 Tachwedd 2016	Contractwr allanol	Cwblhawyd
		Trwsïadau i ffenestri allanol a aseswyd gan contractwr allanol, aros am gwblhad y gwaith sy'n	Contractwr allanol	31/01/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae proses i fonitro'r ystafell golchi dillad sy'n sicrhau bod cleifion a staff wedi'u haddysgu i roi dillad yn y basgedi a ddarperir yn ofynnol, a dylid dilyn hyn.</p>	<p>15 (8) (a) (b) (c)</p>	<p>ofynnol</p> <p>Rhestr wirio bob awr i'w chwblhau gan staff i sicrhau glendid a gwaith monitro cyffredinol o anghenion cleifion unigol.</p> <p>Sesiynau gweithgareddau bywyd beunyddiol, sesiynau unigol a grŵp ar reolaeth golchi dillad a rheoli heintiau.</p> <p>Problem wedi cael ei chodi yng nghyfarfod wythnosol cymuned y cleifion.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Therapi Galwedigaethol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid darparu rheiliau gwely lle y bo'n briodol am resymau diogelwch.</p>	<p>15 (10)</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac ar waith a bydd yn cael ei adolygu gan staff cymwys.</p>		<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer pob aelod o staff ym mhob agwedd ar arsylwi cleifion.	20 (1) (a) a (2) (a)	Mae Rheolwr y Ward wedi derbyn hyfforddiant/goruchwyliaeth gynhwysfawr i ddarparu'r un peth i aelodau eraill o staff.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd a chefnogaeth barhaus i Aelodau Tîm eraill
		Trafodaeth cyfarfod tîm		Cwblhawyd
		System â chod lliw ar waith ar gyfer lefelau uwch o arsylwi	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
		Archwiliad dyddiol o waith papur arsylwadol gan Rheolwr y Ward/Dirprwy Penodedig.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
		Pwnc wedi'i eitemeiddio ar gyfer sesiynau goruchwyllo ym mis Rhagfyr/Ionawr	Holl Staff	31/01/17
Rhaid darparu rheiliau gwely lle y bo'n briodol am resymau	15 (10)	Wedi'i gwblhau ac ar waith a bydd yn cael ei adolygu gan staff		Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
diogelwch.		cymwys		
Rhaid cynnal adolygiad o'r ffordd mae cleifion yn cael mynediad at systemau galw pan maent yn y gwely a llunio cynllun gweithredu er mwyn datrys y broblem hon.	15 (1)	Mae systemau galw wedi cael eu hadolygu a'u gosod i fod yn hygyrch i gleifion yn y gwely.		Cwblhawyd
Rhaid datrys y broblem o ran cyfyngiadau ar ffenestri.	15 (1)	Archwiliad wedi cael ei gwblhau a gweithiau allanol i'w cwblhau	Contractwr allanol	31/01/17
Rhaid cwblhau adolygiad annibynnol o'r digwyddiad adroddadwy a'i anfon at AGIC nid yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2016.	30 a 31	Mae Prif Nyrs Elysium yn cynnal adolygiad a bydd yn ei gyflwyno o fewn yr amserlen.	Prif Nyrs	31/12/16
Dylid darparu AGIC â chopi o asesiad risg pwyntiau clymu diweddaedig ar gyfer Ysbyty Aderyn.	47 (1) (c)	Cwblhawyd yr archwiliad ar 5 Rhagfyr 2016. (Wedi'i atodi)	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant mewn arsylwi cleifion gyda phwyslais	20 (1) (a)	Hyfforddiant fel 20 (1) (a) a (2) (a) Polisi a Gweithdrefn Eglur mewn	Rheolwr y Ward Y Tîm	31/12/16

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
penodol ar sicrhau bod proses eglur a chadarn o ran pa lefelau sy'n cael eu gweithredu ar gyfer pob claf ar sail asesiad risg.		perthynas ag Arsylwi ar Gleifion	Amlddisgyblaeth	
Dylai Ysbyty Aderyn ddarparu eglurhad o'r trefniadau parhad busnes sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y gwaith ailstrwythuro o fewn Partnerships in Care Limited sydd ar ddigwydd.	33 (1) (d)	Wedi'i gyflwyno ar wahân gan yr Unigolyn Cyfrifol		Cwblhawyd
Dylai copïau o God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (2016) fod ar gael i gleifion, teuluoedd, gofalmwyr ac eiriolwyr, ac eraill sydd yn eu cefnogi, fel mater o frys.	22	Wedi ei weithredu ar unwaith. Ar gael yn y brif swyddfa ac o fewn yr ardal i gleifion ac mae'n hygyrch i bawb.		Cwblhawyd
Rhaid i bob cofnod arsylwadol gael ei gwblhau'n gynhwysfawr i ddangos bod gwiriad sicrwydd ansawdd o gofnodion wedi cael ei gwblhau gan y nyrs gofrestredig sydd â gofal.	23 (1) (a)	Ffurflen wedi'i diwygio a'i llofnodi gan y nyrs â gofal a'i gwirio bob bore gan reolwr ward/dirprwy penodedig		Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid darparu gwybodaeth fwy manwl yn y cynllun gofal i ddangos gofal clwyf effeithiol a chyflwr y clwyf.	23 (1) (a)	Wedi'i roi ar waith yn syth gan y nyrs gofal iechyd corfforol a'r nyrs sylfaenol		Cwblhawyd
Rhaid i ddogfennau unigol cleifion adlewyrchu'r lefel gyfredol o ran arsylwi ar y claf.	23 (1) (a)	Wedi'i weithredu'n syth – dangosfwrdd yn cael ei wirio yn ystod cyfnodau trosglwyddo i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir		Cwblhawyd